OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 324

# Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002

## RHAN III

## RHEDEG Y CARTREF GOFAL

**Iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth**

**12.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y cartref gofal yn cael ei redeg yn y fath fodd ag y bydd—

(a) yn hybu iechyd a lles y defnyddwyr gwasanaeth a gwneud darpariaeth briodol ar eu cyfer;

(b) yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer gofal y defnyddwyr gwasanaeth ac, os yw'n briodol, ar gyfer eu triniaeth, eu haddysg a'u goruchwyliaeth.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig, i'r graddau y bo'n ymarferol, alluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r gofal y maent i'w gael ac â'u hiechyd a'u lles.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig, i'r graddau y bo'n ymarferol, ddarganfod dymuniadau a theimladau'r defnyddwyr gwasanaeth a'u cymryd i ystyriaeth er mwyn darparu gofal iddynt a gwneud darpariaeth briodol ar gyfer eu hiechyd a'u lles.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cartref gofal yn cael ei redeg—

(a) mewn modd sy'n parchu preifatrwydd ac urddas y defnyddwyr gwasanaeth;

(b) gan roi sylw dyledus i ryw, cyfeiriadedd rhywiol, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, a chefndir diwylliannol ac ieithyddol y defnyddwyr gwasanaeth ac unrhyw anabledd sydd ganddynt.

(5) Rhaid i'r darparydd cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig (os oes un), mewn perthynas â rhedeg y cartref gofal—

(a) cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da gyda'i gilydd a chyda defnyddwyr gwasanaeth a chyda staff; a

(b) annog a chynorthwyo staff i gynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da gyda defnyddwyr gwasanaeth.